

# Glos

Bwletin misol

Llén natur  
Cymdeithas Edward Llwyd

Rhif 203  
Ionawr 2025

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llén Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy [bwletinglas.llennatur@gmail.com](mailto:bwletinglas.llennatur@gmail.com)



## Rheoli'r das [ Rhan II ]

### Y Gyllell wair

Dwi'n cofio fy hên ewyrth yn adeiladu taes ar y cae wrth y tŷ yma ddegawdau yn ôl efo cyllell pwrpasol i dorri darnau i fwydo'r fuwch. Mi fydd a wedi creu gwely o ddrain o'dan y daes a 'nithlen efo sachau dros ei thop hi. Cariwyd y gwair yn rhydd ar drol a cheffyl. Idwal oedd enw'r ceffyl. A dwi'n clywed ymyl dur yr olwyn yn crenshan ar y cerrig yn y lôn wrth iddi fynd. Fy nhaid oedd yn gwneud yr olwynion ac yn creu'r drol. Lle'r aeth y blynnyddoedd??

Eilian Williams

...dwi'n cofio helpu i hel gwair rhydd yn y 50au ar 60au, ond mi roedd y gwair yn cael ei roi yn y daflod, uwchben yr anifeiliaid, roedd tri beudy ar y fferm a byddai angen llenwi y tri thaflod yn barod am y gaeaf.

Geraint Ashton

Braf gweld osgo'r dyn wrthi'n defnyddio'r cyllell wair. Mae gen i un acw, heb handlan bren yn anffodus, fel rhan o'm casgliad 'taclau taid' (llun gyferbyn).

DB



29/11/1935 ■ Bryn Ddraenen, Cwm Eidda. Torri orfainc yn y das wair hefo cyllell wair a chario pedair tringlen o'r gwair i'r beudai. Tywydd glawog oer ias y gaeaf.

Dyddiadur DO Jones, Padog

[Gorfaintc ydi y silff mae rywun yn eu greu drwy dorri ar i lawr i das wair efo cyllell wair a chario'r gwair ymaith fesul trenglan (dyna fy sillafiad i) i'r beudy gerllaw i fwydo'r gwartheg. Byddai'r orfainc yn mynd yn is ac yn is wrth i rywun gymeryd trenglan ar ôl trenglan (neu dafell ar ôl tafell) o wair o'r das. Gelwid 'cefn' yr orfainc, sef y ddwy wal (fertigol) o wellt yn 'fagwyr' (ll. 'magwyrydd') - mae'r magwyrydd ar 90° i'w gilydd (meddyliwch am gymeryd blocyn sgorwar allan o gornel cacen frith). Pan o'n i'n blentyn mi fyddwn wrth fy modd yn dringo'r ystol i'r orfainc – roedd o'n llwyfan cyfleus, cynnes a chysgodol i chwarae (a disgyn i gysgu weithiau). Ond os oeddwn yn eistedd efo nghefn ar y fagwyr yn darllen comic. Mi oedd honno braidd yn galed a phigog Twm Elias].

(2)

### Cyllell wair

Tudur Pritchard a'i cyllell wair



### O Fwletin Llên Natur Rhifyn 16

Mae'r cyllell wair yn arf ddelfrydol i'w bwrpas, sef torri gwair o das o wair rhydd cyn dyfodiad y baler. Mae'r handlen yn sefyll i un ochr fel nad yw eich migyrnau yn taro yn erbyn y gwynab o wair sydd newydd ei dori. Mae'r llafn o haearn caled tenau, fel y gall weithio heb ei hogi, ac mae o ar ffurf bwa fel ei fod yn llithro i fewn i'r das, ac yn torri wrth rwbio i lawr drwyddi. Gan ei fod yn noddi iddi [iaith Sir Fôn, Gol.] mae'n cadw'n blwm at

i lawr, a'i hyd hefyd yn gynorthwy i'w gadw i dorri'n blwm Mae'r wyneb o wair yn holol galed gan fod y das wedi setlo a chaledu ers y cynhaeaf. Yn wir, mor galed yr aiff y gwair, ac mor dda yw'r cyllell am dorri, fel y cofiaf i ffrind ers stalwm allu chwarae pêl ar wyneb toredig y das. Yr oedd fanno yn fwy llyfn na wal y fferm! Erbyn heddiw cadwaf y cyllell wair gan ei bod hi'n hwylus i dorri silwair a silwair sych (*haylage*) o fyrnau mawr.

Tudur Pritchard, Plas Penmynydd, Môn gynt Mi gofiwn beth oedd tas wair hyd dragwyddoldeb, cyllell wair hwyrach hefyd - ond atgofion fel hyn yn unig sydd yn cofnodi ansawdd y das a'r bywyd o'i chwmpas fel y bu. "Llên natur" ar ei gorau (Gol.)

### Geirfa'r das :

**Gorfaintc** = y silff

**Magwyr** = yr ochrau

**Trenglen** = y dafell ar ôl ei thorri

â cyllell wair

[Gyda diolch i Twm Elias]



### Amddiffyn y das

Sylwer bod weiren bigog yn amddiffyn y das rhag cael ei larpio gan dda byw. Sut oedd hynny yn cael ei ddaturus cyn oes y weiren? Gosod clawdd – ond clawdd o beth?

3/9/1822 Penmorfa, Gwynedd Dydd Mawrth. Yn wlaw trwm yn y boreu, sychu'n lled dda yn y Prydnawn a bwrw cawod. Will Owen a Dic yn rhaffio Dâs Caegoronw ac yn dechreu rhaffio y Das glofer. Sion Morris a Wil Sion yn gwneud clawdd o Gwmpas Dâs gwair yr hen Forfa.

Dyddiadur Owen Edwards, Fron Olau, Penmorfa  
(Archdyf Gwynedd, Caernarfon.)

### Yr Ystol


1/1/1820 ■ Griffith Jones Gelli yn dwad a dau bolyn ystol at adwy y Morfa ac yn mynd a llwyth o wellt i'r Beudy Uchaf.

9/2/1820 ■ Sion a Huwcyn yn dyfod ac uno'r polion Ysdol i fynu wrth ddyfod o'r morfa. Dyddiadur O E, Fron Olau

# Storm Darragh

## Storm Darragh – storm mwy anarferol na'r arfer?

Nerth y gwynt yn ystod y storm ddiweddar.



*The wind was so strong in Swansea that someone's front bumper of their car ended up in our front yard...  
... That's how strong the wind was here...*

Nia Rose Rogers

Ron i yng nghyffiniau Aberdaron brawn Sul yn ceisio cael hyd i rywun i symud tractor er mwyn achub to sied! Dim ffonau symudol na ffonau tŷ yn gweithio! Pawb yn eu tai yn swatio yn eu pyjamas! Dw i erioed wedi gweld gwynt felna ym Mhen Draw'r Byd yng ngwlad Llŷn o'r blaen!

Rhys Llywelyn

Clywais awgrym fod cyfeiriad y gwynt yn anarferol yn ystod storm Darragh a chwymppodd cymaint o goed oherwydd bod eu gwreiddiau wedi datblygu er mwyn gwrthsefyll gwynt o'r cyfeiriad arferol. Maent yn dal i weithio i glirio'r ffyrdd mawr yng Ngheredigion a phwy a wyr beth sy'n digwydd yn achos lonydd bach.

Jackie Wilmington

Credadwy hefyd. Fasa rhaid mapio nifer a lleoliad y coed oedd wedi disgyn o gymharu a stormydd o gyfeiriadau eraill i gael syniad gwell o effaith y cyfeiriad - **ewch am dro i Bodnant i weld y difrod yn fan'no**. Mi fyddaf yn siarsio pawb i gofnodi a chofnodi a chofnodi eto – gan gofio wrth gwrs am gofnodion “dim difrod” fel hyn (gan Ann Temp): “Fuon ni reit lwcus yma'n Bethesda!!”.

Golygydd

Ie, mae'r cyfeiriad yn holl pwysig dwi'n meddwl. Ddim llawer o ddifrod yn Contae Maigh Eo yn Iwerddon, er gwaetha'r ffaith ein bod ni'n byw yn yr afordir sy'n wynebu'r Atlantic [yr Iwerydd]. Oedd na wynt mawr gwyllt am eiliad - pan oedd y gwynt yn troi nos Wener o'r de i'r gogledd-orllewin - ond wedyn, dim ond gwynt cryf gweddol gyson o'r gogledd-orllewin. Rydym ni, yr *infrastructure* a'r *coed* wedi hen arfer hefo'r gwynt yna. Gwynt cryf, yn syth o'r de, sydd yn achosi y difrod yma.

Ian Davidson

Dwi'n amau ein bod wedi cael gwyntoedd llawer cryfach mewn stormydd eraill ond bod y gwyntoedd yma wedi bod o gyfeiriad holol wahanol i'r cyffredin.

Eryl Davies

Sylwadau eraill (lluniau trosodd)

Y ffordd rhwng Nant Gwynant a Phen y Gwryd (CRJ)

David Waller

Afon Babi Llanfachreth 7th December 2024.

Martin Jones

Rioed wedi clywed am afon Babi Martin. Tybed ai'r afon sy'n codi yn llyn Ybi (lyn y Bi yn ôl rhai) yn yr un cyffiniau? Yr afon Cemlyn sy'n codi yn y llyn hwn yn ol yr adroddiad canlynol - tybed ai dyma "afon Babi" erbyn hyn?

Golygydd

Na, mae Llyn y Bi yn y Rhinogydd. Mae'r afon Babi â'i tharddiad ar ochr orllewinol y Rhobell ac yn dod lawr heibio i bentref Llanfachreth cyn ymuno â'r afon Fawddach ychydig i lawr y dyffryn o dafarn Ty'n y Groes. Fe'i gelwir hefyd yn Afon Las ond Afon Babi sydd yn cael ei ddefnyddio amlaf.

Geraint Rowlands

Dydy'r 'afon Las neu afon Babi' ddim yn llifo drwy bentref Llanfachreth, mae afon Las/ Babi yn llifo o lethrau'r Rhobell ond mae hi'n llifo islaw'r pentref. Afon Llan sy'n llifo drwy'r pentref ac mae hi'n uno gyda'r 'afon Las neu Afon Babi' ychydig islaw fferm Boethog. Mae llawer o gymysgu rhwng enwau'r afonydd dan sylw, gan gynnwys ymhlið y rhai sydd wedi eu magu/yn byw o fewn y plwyf.

Buddug Angharad Hughes



Y ffordd rhwng Nant Gwynant  
a Phen y Gwryd (CRJ) David Waller




Afon Babi Llanfachreth  
7ed Rhagfyr 2024. Martin Jones



Dwy goeden ar draws Lon Glyn Môr,  
Llanbedrog, yn sgil storm Darragh


Greta Hughes



Darragh pwy? Y trydydd hen nyth brân  
i mi weld wrth fynd am dro yn Garreg  
[Llanfrothen] heddiw, a sydd dal yno  
yn yr entrychion...  
Llinoes Griffin



Mae difrod mawr i bier Llandudno  
Llun: Llandudno Pier Anita Myfanwy



Y goeden yma wedi dod i lawr a'r rhan  
uchaf ohoni ar draws cefn trydan ac  
ar ben to sied drws nesa'.  
Llanystumdwys. Awen Hamilton



Afon ger y ty heb fod mor uchel  
ers llawer blwyddyn (Bontddu) Ann James



Neuadd Ganoloesol  
Penarth Fawr Caren Jones



C  
Y  
M  
U  
Short video · Mark Balaam a  
Cnocell y coed, Pontllynfi  
gafael yn dynn Mark Balaam




Y tawelwch ar ôl y storm  
(neithiwr, Treor) Michael Fay

# Storm Darragh: graffiau Donegal

Hanes nerth a chyfeiriad y gwynt yn Donegal

Ifor Williams



## Drylliadau'r Carfilod Bach

### Carfilod bach yn glanio yn nwyrain

#### Lloegr

Efaith arall Storm Darragh? - newyddion bore ma. Hyn yn ffenomenon rheolaidd: 1877, 1912, 1929, 1932,



**Carfil bach**, ymwelydd prin iawn i Gymru, yn dilyn storm o'r gogledd yn yr hydref. Tynnais y llun yma yn Ingeborgfjellet, Spitsbergen. Mae miloedd ohonynt yn nythu ar sgrî, gan guddio o dan y cerrig oddiwrth llwynog yr Arctic (llun gan Alun Williams 25/07/2013)

#### Y Dystiolaeth a'r cefndir meteorolegol

**Ionawr neu Hydref 1877** (Meirionnydd) ... "many" [little auks] washed ashore in Merioneth in 1877 (Pennant)

Lovegrove et al (1994)

**Ion 1877 LLIFOGYDD.** Y MAE y flwyddyn 1877 wedi enwogi ei dyddiau dechreuo (Ionawr?) ag ystomydd a llifogydd nas clywir yn ami am eu cyffelyb. O bob cyfeiriad o'r Ynys, deuai yr unfath newyddion i mewn, am feusydd wedi eu

diluwio, trefydd wedi eu lled-foddi, a cherbydresi hirion yn treulio y nos faith mewn parthau anghysbell hyd oni ddelai yr aradr eira i'w gwaredu'n araf. A ydyw dygyddiadau dyfodol yn taflu escysgodion o'u blaen? A ydyw dechreued y stormus y flwyddyn yn broffwydoliaeth o'r rhyfel.

Y Gwladgarwr 12th January 1877

**3 Ion 1877** (Llechcynfarwy), Môn Dyma ddiwrnod y stormus iawn ni welais mohoni erioed yn bwrw cymaint ac yn chwythu cymaint ar yr un pryd i mi gofio. Er hynny i gyd bu fy nhad yn Llanerchymedd yn talu rhent.

Dyddiadur John Henry Hughes, Llechcynfarwy, Môn

**3 Ion 1877:** Mer diwrnod gwallaw bidir gwallaw tryma a welas i erioed. Dyddiadur Edward Edwards, Tywyn

**14-15 Hydref 1877:** severe storm. Cyclonic southwest to westerly situation, inferred storm-force southwesterly gales, much damage both on land and at sea, many trees and telegraph poles blown down.

Kington, J. 2010, Climate and Weather

**1912** (gog ddwyrain Cymru etc) *The severe weather has brought a number of little auks, northern birds of irregular appearance, to our coasts. Professor Newstead\* tells me that one which ascended the Dee on tide was ruthlessly stoned to death by boys at Chester. A note from a Whitby correspondent is published in this morning's issue stating that many of this species have been found dead on the shore.*

Country Diary Manchester Guardian 6 Feb 1912

**Ionawr 1912 LITTLE AUK (Alle alle)**.a few were picked up during November and December [1927] as is usually the case, but there has been no notable "wreck" of these little birds since January, 1912.

British Birds March 1928

**7 Ionawr 1912** Gwynt o'r dwyrrain Bwrw eira

Dyddiadur DT Jones, Goppa, Trawsfynydd

**Chwefror 1912 (swydd Caer)** *The severe weather has brought a number of little auks, northern birds of irregular appearance, to our coasts. Professor Newstead\* tells me that one which ascended the Dee on tide was ruthlessly stoned to death by boys at Chester. A note from a Whitby correspondent is published in this morning's issue stating that many of this species have been found dead on the shore, but unfortunately the value of his communication is discounted by his remark about the "great black-headed gull" and the "ringed guillemot." ...*

Thomas Coward, Manchester Guardian, 6 February 1912

**5 Chwefror 1912** very stormy, very few children present

Llyfr Log Ysgol Aber. Archifdy Caernarfon

**Tachwedd 1923** (Norfolk) *Several Little Auks were obtained on the coast during November, their first appearance being on November 7th, the same day that the big rush of migratory birds took place, but there was nothing approaching to a wreck.* **Dolen y Guardian**

**6 Tachwedd 1923** Neb yn Seiat heno - glaw. Gorffen Ksrrs Pink Corn, 4 yn dda, darn yn fan. Dechra rhesi Ben - 5 yn dda a [0.5] yn fan Dyddiadur John Owen Jones, Crowrach, Bwlchtocyn, Llŷn (Diolch i deulu RG Williams)

**6-9 Tachwedd 1923** This [migratory] movement, which was on a vast scale, appears to have begun on November 6th and lasted throughout the 7th, 8th and 9th, the maximum daylight passage taking place on 7th. A study of the weather charts for November 5th, 6th and 7th shows the formation of an area of low pressure over Iceland, the filling up of a "low" over Scandinavia, and the formation of a high-pressure area to the S.W. of the British Isles.      BBApr1924

**14 November 1923** 22 children present. Those children from Wig Crossing, Wern, and the Kremlin have not turned up. It is reported that the houses even are flooded. In Wig crossing the inhabitants had to leave the houses to the bedroom windows.

Log Ysgol Abergwyngregyn

**2/11/1929** (Cley, Norfolk) During the last two months of the year, a period of frequent gales, a considerable immigration of Little Auks took place, the first arrival being seen by Mr. R. M. Garnett at Cley on November 2<sup>nd</sup> **29/12/1929** (Dungeness) I WAS at Dungeness from December 28th to 31st, 1929, and my visit coincided with an unusual invasion of Little Auks (Alle alle)?..There were storms during the night of the 28th-29th and again in the morning of the 30th, but none of the Little Auks I saw showed clear signs of fatigue    BBApr1930    **31/12/1929** ON December 31st, 1929, after the heavy gales, I found two Little Auks (Alle alle) at Staines which did not show the confiding disposition of the one reported in November, 1928, by Mr Donald Gunn (antea, Vol. XXII, p. 193), or any of the exhaustion commonly seen in storm-driven birds.

**Tachwedd 1929** The frequent gales were no doubt responsible for the appearance of these [leachs and storm petrels] inland. In November, gales were reported on the 5th, 8th, 10th to 12th, 15th, 16th, 18th to 20th, 22nd, 23rd, 25th to 28th; in December from 2nd to 13th (5th, 7th, 8th and 9th from 77 to 110 miles per hour), 19th to 26th, 28th to 30th (on 29th from 76 to 83 miles per hour); in January 2nd to 5th (on 2nd from 77 to 91 miles per hour) 7th, 10th to 13th (on 11th, 70; 12th, 77; 13th, 102 miles per hour)

BBApr1930

**11 Tachwedd 1929** Cronfa ddwr Lluest, Rhondda 211mm was recorded at Lluest Reservoir in the Rhondda Valley - the highest 24 hour total ever recorded in November in the UK - until 2009...when 314mm fell at Seathwaite, Cumbria      Roy Watkins

**November 1929** will be remembered for the severe floods in the Rhondda valley on the 11th...largest one day fall measured in Wales

The Weather of Britain (Robin Stirling 1982)

**11 November 1929:** cyclonic westerly situation, severe southwesterly gales, heavy rain, 200mm in Glamorgan, severe floods in the Rhondda valley and Pontypridd, hundreds of houses inundated with coal-slurried water .

Kington, J. (2010) Climate and Weather Cyfres New Naturalist (Harper Collins, gyda chaniatad)

**11 Tachwedd 1929** Probably the heaviest rainfall in one day, for years. Following on about six weeks of very wet weather it is not surprising that large tracts of low-lying ground is [sic?] under water.

Dyddiadur EHT Bible, Llyf. Gen. Cym.

**5 Tachwedd 1929** WHEN the wind in north Wales went round to a northerly quarter on November 15th, 1929, a great increase took place in the winter migrants from the north and east      BB Ion 1930

**7 Rhagfyr 1929** Sadwrn 7 Wythnos o wynt mawr, llawer o longau wedi eu colli.

Dyddiadur Griffith Thomas, gwefan Rhiw

**7 Rhagfyr 1929**, during one of the strong gales, .D. L. L. saw two adult Kittiwakes (*Rissa tridactyla*) at Staines Reservoirs, Middlesex.

BBMaw1930

**Treffynnon, Sir Fflint** STORM-PETREL. On December 8th, 1929, Mr. N. B. Kinnear informs us, one was picked up at Holywell, Flintshire, and sent to the Natural History Museum.      BBChwef1930

**8 Rhagfyr 1929** Arfordir de Cymru THE coast of South Wales experienced to the full the severity of the gales which occurred at the beginning of the month, and as a consequence many unusual species have been reported to us and are recorded in the list which follows... on December 8th LITTLE AUK (Alle alle).The National Museum of Wales received a specimen in the flesh, which had been found near Cowbridge (Glam.) on December 12th.


BBMaw1930

**Rhagfyr 1929** (Llandudno?) Ni chawsom hyd yn hyn arwyddion tywydd caled, a chilioedd yr hen flwyddyn [diwedd Rhagfyr 1929] yn addfwyn a thawel, ac wrth wrando ar alawon ambell aderyn bronfraith temtir ni i gred y gallwn ninnau hefyd groesawu gwanwyn cynnar. Eithr pwys a ragwybu a ddigwyddo yn Ionawr neu Chwefror.

Y Deyrnas #75 Ionawr 1930

Bu carfilod bach yn cael eu golchi i'r tir ac i gynefinoedd annisgwyl o flaen stormydd mewn blynnyddoedd eraill wedyn fel 1932, 1952 ac 1983.

Dyma eu dosbarthiad arferol:





Derbyn Glas



Glas

## Caernarfon Ddoe a Heddiw

Tynnwyd y llun ar y 16 Medi 1985 pan roedd yn wely cledrau rheilffordd wedi mynd a'i ben iddo.



Erbyn heddiw mae'r hen rheilffordd yn ffordd gysylltiol brysur

### Dolen Cymdeithas Ddinesig Caernafon

Cefn argau yr afon Cadnant i greu Llyn y Brenin oedd yma o tua 1285 i 1852 (a gardd ar lethr) tan agorwyd ar gyfer adeiladu y rheilffordd i Lanberis ac Afonwen. Mae i'w weld ar fap Speed o'r dref ac un 1834.

Ifor Williams



Nid Crown Street yw'r stryd yn y lluniau: Gardd'rafon oedd hen enw'r stryd ar y dde ble mae'r fan wen, ond yr enw Saesneg Mill Lane yw'r enw hyd heddiw, bosib ar ôl newidiadau sylweddol yn y dref tua 200 mlynedd yn ôl.

Mae'r lluniau wedi eu tynnu o Glwt y Mawn / Turf Square / [Pendist](#), sydd yn arwain i fewn i'r dref i lawr y stryd fawr o Stryd Bangor, gyferbyn a'r siop gig, O.G. Owen.

Mae Stryd y Goron / Crown Street yr ochr arall i Glwt y Mawn sydd yn arwain at yr Empire, hen bictiws yn y dref.

Mae'r afon Cadnant yn llofo o dan y maes parcio aml lawr ac o dan hen adeilad Banc Lloyd / hen siop yr Afr Aur ac allan i Doc Fictoria, i'r Fenai, ond gweli a fap Speed ble roedd hi'n mynd i'r mor yn wreiddiol.

Ifor Williams

## Dau fwgan Brocken cydamserol

Bu cyfnod o niwl anarferol o gwmpas y dyddiadau hyn dros Brydain

Oes rhaid i niwl fod yn "arbennig" i achosi bwgannod Brocken?




O dan Moel Fammau bore ma, 27 Rhagfyr 2024  
Mari Roberts

Gan [Fugail y Gogarth](#), 26 Rhagfyr 2024  
Dan Jones


# Pibyddion ②

## Scolopacidae ②

cyffredin

**B**Pig tuag  
i lawrSmotyn du  
ar ei fol pan  
yn nythu**C**Brest  
ruddgoch  
yn yr haf  
(dramor)Yn nythu  
dramorPwtyn o  
aderyn**B**Ymwelydd  
yn bennafPig  
eithaf  
hir tuag  
i lawr**Lluniau oedolion**

Wikimedia Commons

**Maint y corff:****M** Mawr **C** Canolig **B** Bach**!** Tebyg, hawdd cymysgu  
rhywogaethau**2**

Bach iawn

Bol  
gwynYn nythu  
tramor**B**Pwtyn  
bachYmwelydd  
yn y gaeaf**C**

Pen bach

Gwddf hir

Yn gaeafu  
ym Mhrydain